**Cofnodion o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn Senedd Cymru**

**Dydd Gwener 10 Chwefror 2023**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau o'r Senedd:**

Mark Isherwood (Cadeirydd), Sam Rowlands, Gareth Davies, Ken Skates, Rhun ap Iorwerth, Darren Millar

**ASau:**

Mark Tami AS

**Arweinwyr Awdurdodau Lleol:**

Y Cyng. Dyfrig Siencyn (Gwynedd), Y Cyng. Ian Roberts (Sir y Fflint), Y Cyng. Llinos Medi (Ynys Môn)

**Siaradwyr:**

Owain Williams (Llysgennad Purple Shoots, Gogledd Cymru) a Stephen Jones (Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy)

**Cynrychiolwyr y Sector Tai:**

Mark Harris (Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi) ac Iwan Trefor Jones (Dirprwy Brif Weithredwr ADRA)

**Cynrychiolwyr y Sector Cludiant:**

Alex Fortune (Trafnidiaeth Cymru)

**Swyddogion:**

CLlLC

Chris Llewelyn (Prif Weithredwr), Naomi Alleyness (Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), Tim Peppin (Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy), Lucy Sweet (Ysgrifennydd y Grŵp), Dilwyn Jones (Rheolwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus)

Llywodraeth Cymru:

Bryn Richards

**Ymddiheuriadau:**

- Lesley Griffiths AS
- Siân Gwenllian AS
- Simon Baynes AS
- Y Cyng. Charlie McCoubrey
- Y Cyng. Mark Pritchard
- Amelia John, Llywodraeth Cymru (Tai)

- Stuart Fitzgerald, Llywodraeth Cymru (Dirprwy Gyfarwyddwr Cartrefi a Lleoedd)

**Camau y Cytunwyd Arnynt**

**Tai**

1. Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf/ gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar y materion canlynol o'r cyfarfod:
- Uwchgynhadledd tai disgwyliedig Llywodraeth Cymru (Dywedodd y Gweinidog Julie James AS wrth y Pwyllgor Tai y byddai hyn yn digwydd, efallai ei fod wedi'i ohirio oherwydd amgylchiadau'r Prif Weinidog).
- Sut fydd y targed i'r holl dai cymdeithasol fod yn EPCA erbyn 2033 yn cael ei gefnogi a'i ariannu.
- Nifer y cartrefi newydd sydd wedi eu rhoi i un ochr am y tro oherwydd ffosffadau, systemau draenio cynaliadwy ac ati.
2. Purple Shoots - Owain Williams i anfon ffigurau yn dangos cynaliadwyedd a'r effaith ar les eu gwaith. **Lucy Sweet, Ysgrifenyddiaeth.**

**Cludiant**

3. Y Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at Lywodraeth y DU ynglŷn â darparu'r arian cyfalaf angenrheidiol i wella'r rhwydwaith traws-ffiniol, gan gyfeirio at yr adolygiad o Gysylltedd yr Undeb gan Hendy. **Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy CLlLC**
4. Cytunodd yr Aelodau i gael trafodaeth y tu allan i'r cyfarfodydd grŵp am y syniad o gyflwyno sylwadau trawsbleidiol ar ddatganoli grymoedd ar faterion cludiant i'r rhanbarth. **Aelodau'r grŵp i symud hwn ymlaen.**

## 1. Croeso gan y Cadeirydd a Chyflwyniadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd '22 a Materion yn Codi

Cytunodd aelodau'r grŵp bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

## Tai

## 3. Datrysiadau i fodloni'r Galw am Dai yng Ngogledd Cymru

Iwan Trefor Jones, Dirprwy Brif Weithredwr ADRA

Mae darparu tai fforddiadwy a thai cymdeithasol yn flaenoriaeth wirioneddol i bob cymdeithas tai ac awdurdod lleol ac yn rhedeg drwy'r holl bolisïau corfforaethol gwahanol a chynlluniau busnes.

Mae angen ystyried y trefniadau cyllid ac adolygu cynlluniau ariannol.

Mae'r Grant Tai Cymdeithasol dros £300 miliwm ar lefel cenedlaethol ac mae'n rhaid ei ddiogelu neu ei gynyddu i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a thai cymdeithasol.

Mae angen i ni hefyd weld mwy o anogaeth a chymhelliant i annog datblygu safleoedd tir llwyd a throsi adeiladau presennol.

Mae angen cymorth ychwanegol i ddatblygu safleoedd llai i oddeutu 6-10 o dai.

Mae angen diogelu adnoddau mewn adrannau cynllunio.

Mae angen parhau gyda chynlluniau datblygu lleol a gwneud hynny'n sydyn.

Safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy - weithiau y mae anghysondebau yn y polisïau.

Mae yna angen gwirioneddol i ystyried mesurau i gefnogi'r sector adeiladu - mae llawer o gontractwyr 'ar eu gliniau' ac mae nifer fach iawn o dendrau yn dod yn ôl o geisiadau.

Mae angen parhau i fuddsoddi yn y stoc dai bresennol, mae yna risg o ganolbwyntio ar adeiladu tai newydd yn unig. Os bydd tai yn dod yn wag - mae angen i ni eu hadnewyddu a sicrhau eu bod o'r safon gywir i bobl leol. Mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir rhwng tai newydd a phresennol.

Mae angen gwella'r trefniadau cydweithio a'r bartneriaeth rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru, i wneud yn siŵr nad ydym ni'n cystadlu.

Mae angen symleiddio'r broses datblygu - mae clywed gan ddatblygwyr dro ar ôl tro yn rhy gymhleth. Mae lle i ddod â sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd i ymateb i rwystrau.

Mae Cymdeithasau Tai yn cydweithio'n well nag erioed - maent bellach yn cael cyfarfodydd rheolaidd.

Mae cymdeithasau tai a chynghorau yn bwriadu gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu safleoedd mwy cymhleth ar draws y rhanbarth. Mae angen i hyn barhau a datblygu'r berthynas ymhellach fyth.

<u>Naomi Alleyne, CLlLC</u>

Mae ychydig o'r hyn a ddywedodd Iwan eisoes yn digwydd, e.e. cymryd y cyfle i weithio'n agosach rhwng cynghorau a chymdeithasau tai.

Mae ansawdd tai yn fater allweddol, e.e. mae llwydni yn fater proffil uchel ar hyn o bryd.

Mae sut i wneud defnydd gwell o'r sector rhentu preifat yn fater allweddol - mae landlordiaid yn gadael y farchnad, sut ydym ni'n eu cael nhw'n ôl?

Y Gronfa Trosiannol - mae wedi helpu yn nhermau creu llety dros dro gwell.

Mae ail gartrefi yn parhau i fod yn broblem fawr mewn rhai cymunedau.

Digartrefedd - mae'r niferoedd yn cynyddu.

Mae llawer o'r problemau hyn YN cael eu trin ac mae camau yn cael eu cymryd, ond nid yw'r cynnydd i'w weld yn ddigon i gadw i fyny â'r galw.

Mae llawer o waith ar y gweill ac mae CLlLC yn gweithio gyda Chartrefi Cymunedol Cymru o ran sut i symud ymlaen, ond nid oes llawer o atebion hawdd ar gyfer yr heriau yr ydym ni'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Ken Skates AS

Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru - a fydd goblygiadau uniongyrchol i'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad ar gyfer adeiladu tai? h.y. Os nad yw prosiectau ffordd penodol yn cael eu dwyn ymlaen, a fydd goblygiadau i adeiladu tai?

Sam Rowlands AS

Bu i nifer o ASau gyfarfod gyda chynrychiolwyr cymdeithasau tai'r wythnos ddiwethaf.

Mae nifer o dai yn cael eu rhoi i un ochr am y tro, yn bennaf oherwydd ffosffadau - 1,141 yn cael eu hadeiladu, 1,093 wedi'u hoedi oherwydd materion yn cynnwys ffosffadau, systemau draenio cynaliadwy ac ati.
Daeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Tai - addawyd i gynnal uwchgynhadledd, roedd i fod i gael ei gynnal yr wythnos ddiwethaf ond efallai nad oedd hynny wedi digwydd oherwydd amgylchiadau'r Prif Weinidog. Dylai'r grŵp fwrw ymlaen gyda hyn.

Targed i'r holl dai cymdeithasol fod yn EPCA erbyn 2023 - bydd yn cymryd amser, egni ac arian gan gynghorau a chymdeithasau tai. Tasg amhosibl?

A ddylai'r grŵp fod yn gofyn am sicrwydd gan y Llywodraeth ar sut fydd y targed yn cael ei gefnogi, ei ariannu ac os yw'n bosibl ei fodloni'n realistig?

Mae angen gwella cydweithio yn y sector cyhoeddus. Mae'n druenus gweld safleoedd sy'n perthyn i'r sector cyhoeddus yn eistedd yn wag. A ddylai'r grŵp hwn ofyn am gadarnhad o fwriad i ddatblygu'r safleoedd hyn cyn gynted â phosibl?

Y Cyng. Dyfrig Siencyn

Mae dros 200 o bobl mewn llety dros dro yng Ngwynedd - mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau i brynu adeiladau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mark Harris, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Rhaglen Cartrefi Clyd gydag ôl-osod - angen cael yr ohebiaeth.

Mark Isherwood AS

Mae Llywodraeth Iwerddon yn buddsoddi mewn datblygu tai modwlar. A yw hwn yn rhywbeth y dylem fod yn ei ystyried yng Nghymru?

Naomi Alleyne, CLlLC - Mae tai modwlar yn rhan o'r sgwrs ar hyn o bryd. Mae'n cynnig datrysiad cynt. Mae'n rhaid i ansawdd fod yn ystyriaeth allweddol, h.y. mae'n rhaid iddynt fod yn effeithlon o ran ynni er mwyn peidio â chreu costau ychwanegol i'r rheiny sy'n byw ynddynt. Mae tai modwlar wedi gwella.

Chris Llewelyn, CLlLC - Ceir trafodaeth sylweddol ar dai modwlar ar hyn o bryd, ond mae'n rhannu'r farn. Mae CLlLC wedi cael trafodaethau gyda LlC ar y materion, a teimlir bod natur anochel iddo.

Mark Harris, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi - Yn y pen draw, mae tai modwlar dal angen y tir a'r caniatâd cynllunio. Efallai bod cynllunwyr yn hyd yn oed yn fwy nerfus am gynlluniau modwlar. Gall hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer tai modwlar fod yn gam cyflym ymlaen, hyd yn oed os yw wedi'i gyfyngu i gymdeithasau tai. Teimlo bod penderfyniad Gwynedd ac Ynys Môn i ddychwelyd at gynlluniau datblygu lleol yn awgrymu dyheadau gwahanol.

Y Cyng. Llinos Medi

Mae Ynys Môn yn edrych ar eu cynllun datblygu lleol ar wahân i Wynedd, ond mae'r polisi yn dal ar waith, ac os rhywbeth, mae'n gadarn iawn o ran tai fforddiadwy.

Cafodd y broses hawliau cynllunio ei symleiddio yn ystod Covid, bu i lawer o gynghorau ddarparu podiau - a ydym ni mewn argyfwng eto rŵan sy'n gofyn i'r llywodraeth gamu i mewn a gwneud penderfyniadau dros dro?

### 4. Cyflwyniad gan Owain Williams, Llysgennad Purple Shoots - Gogledd Cymru

Cyflwyniad PowerPoint wedi'i gynnwys gyda'r cofnodion.

Sam Rowlands

Gofynnodd i Owain os oedd ganddo unrhyw beth sy'n dangos cynaliadwyedd o ran y gwaith y maen nhw'n ei wneud.

Dywedodd Owain ei fod yn gweithio ar hynny ac ar ddangos yr effaith ar les. Bydd yn rhannu'r ffigurau gyda ni pan fydd yn barod.

## Cludiant

### 5. Y wybodaeth ddiweddaraf am GT360 gan Stephen Jones, Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy

Bydd trydydd cais Cronfa Ffyniant Bro hyderus yn cael ei gyflwyno ar gyfer Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ar ôl cais aflwyddiannus yr ail rownd.

Mae'n bwysig iawn bod Trafnidiaeth Cymru yn ailadrodd yr hyn a wnaethant y tro hwn ac yn rhoi cymorth i gwblhau'r ffurflen gais am Gronfa Ffyniant Bro.

Mae Trafnidiaeth Cymru a LlC wedi gwneud llawer o waith datblygu mewn perthynas â'r gwelliannau arfaethedig i brif reilffordd Gogledd Cymru ac mae angen gwneud gwelliannau yn orsaf rheilffordd Caer. Fodd bynnag, nid ydynt wedi gallu parhau â hyn, gan fod penderfyniadau allweddol ar reilffyrdd yn dal heb eu datganoli. Ar y pwynt hwn, mae'n anodd gweld sut fydd yr arian cyfalaf angenrheidiol yn cael ei godi. Gall fod yn 2040 cyn bod unrhyw arian newydd sylweddol ar gael, oni bai y gellir perswadio Llywodraeth y DU i flaenoriaethu'r gwaith.

Cytunwyd y dylai'r grŵp ysgrifennu at Lywodraeth y DU o ran darparu'r arian cyfalaf angenrheidiol i wella'r rhwydwaith traws-ffiniol, gan gyfeirio at yr adolygiad o Gysylltedd yr Undeb gan Hendy.

Ken Skates AS

Gofynnodd a oedd unrhyw un arall yn mynd i wneud sylwadau i gomisiwn cludiant Burns ar gyfer Gogledd Cymru?  Mae Ken wedi cwblhau ei sylwadau ef ond awgrymodd y byddai cydweithrediad ar sail drawsbleidiol yn darparu llais cadarn ar gyfer y rhanbarth.  Roedd o blaid datganoli gwneud penderfyniadau ar ystod o faterion cludiant i'r rhanbarth.

Roedd y Cadeirydd yn fodlon gyda'r awgrymiad hwn.

Bu i Ken gydnabod bod yr hyn y mae'n ei argymell yn heriol ond gall gynnwys cyllid datganoli ar gyfer rhwydwaith y cefnffyrdd a chyfrifoldeb am wasanaethau bws i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.

Cytunodd Darren Millar AS gyda'r cynnig am sylwadau trawsbleidiol, gan nodi y bydd yn bwysig iawn i gymryd sylw o'r datganiad yr wythnos nesaf ar yr adolygiad ffyrdd.

<u>Y Cyng. Dyfrig Siencyn</u>

Byddai'n sicr yn croesawu awgrymiadau Ken Skates AS.  Mae rhywfaint o bryder ar hyn o bryd o ran y cynlluniau cludiant rhanbarthol, bod canllawiau'r llywodraeth yn mynd i fod mor llym, ni fydd unrhyw le ar gyfer disgresiwn lleol.

Cytunodd i gael trafodaeth gyda Ken Skates AS ar y mater o ddatganoli materion cludiant i'r rhanbarth ac adrodd yn ôl i'r Grŵp Trawsbleidiol (dywedodd Rhun ap Iorwerth AS y byddai hefyd yn hoffi cael ei gynnwys yn y drafodaeth a dywedodd y gellir ei ddefnyddio fel cyswllt i ASau eraill am y trafodaethau hyn).

6. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Uchelgais Gogledd Cymru, Y Cyng. Dyfrig Siencyn

<u>Bargen Dwf</u>

Mae 3 prosiect wedi'u tynnu'n ôl o'r rhaglen (yn cynnwys safle Bodelwyddan) ac mae un wedi derbyn cyllid gan ffynhonnell arall - rhyddhau cyllid i'w buddsoddi yn rhywle arall.

Sefydlwyd cronfa portffolio £7 miliwn i helpu prosiectau sy'n cael anawsterau oherwydd pwysau chwyddiant:

- Cyn Ysbyty GC, Sir Ddinbych
- Canolfan Opteg a Pheirianneg
- Rhaglen ddigidol
- Canolfan Economi Wledig

Mae £30 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau newydd ac mae'r ceisiadau wedi agor (neu ar fi'n agor).

Cyfleoedd ar gyfer prosiectau newydd - disgwyl i brosiectau allu datblygu yn eithaf sydyn.

Canolfan prosesu signal digidol - wedi cael adroddiad ar y manteision hyd yn hyn.

Rhaglen tir ac eiddo - ychydig o oedi, disgwyl gwybod am ganlyniad yr adolygiad yn fuan.

Cytundeb menter ar y cyd wedi'i lofnodi gyda LlC.

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol

Dal yn gweithio gyda LlC ar ôl mabwysiadu fframwaith gan gynghorau yn 2022.

Rŵan, wrth symud ymlaen gyda Chyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, bydd lles economaidd yn ystyriaeth bwysig.

Cronfa Ffyniant Gyffredin

Mae £126.46 miliwn wedi'i ddyrannu i Ogledd Cymru.

Mae Gwynedd yn gweithredu fel awdurdod arweiniol ar ran y 6 cyngor, ac wedi derbyn a llofnodi'r Memorandwm o Ddealltwriaeth gan Lywodraeth y DU, yn cynnwys cyllid ar gyfer 22-23 yn unig.

Mae llythyr wedi cael ei anfon gan CLlLC at Lywodraeth y DU ar ran y pedwar awdurdod lleol rhanbarthol, yn tynnu sylw at yr elfen risg yn nhermau sicrhau cyllid i brosiectau ar ôl 2022/23 nes bod Llywodraeth y DU yn cymeradwyo i gario drosodd unrhyw arian heb ei wario yn 2022/23 a chadarnhau'r grant ar gyfer 2023/24.

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin erbyn 24 Chwefror mewn ffordd gydlynol ar draws y chwe chyngor.

Y brif her yw darparu prosiectau o fewn yr amserlen. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru.

## 7. Unrhyw Fater Arall

Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Mai neu Fehefin, Lucy Sweet i'w gylchredeg gyda chofnodion y cyfarfod hwn.